WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Awst 2011

Awdur: Janet Villars Cyf: 353A2011

# Technoleg – Adborth ar Adolygiad Thema

# **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | 4 |
| Cwestiynau lefel uchel a chanfyddiadau | 5 |

## Statws y ddogfen hon

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiadau o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae'n rhaid gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg er mwyn trawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chyflawni arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi ffyrdd gwahanol o weithio, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion, gan alluogi awdurdodau tân i gyflawni mwy am lai o arian. Mae'r ffordd y caiff technoleg ei chyflenwi a'i rheoli yn cael effaith uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith a wneir gan bob rhan o'r Awdurdod. Gall trefniadau llywodraethu TGCh gwael arwain at y defnydd o systemau amhriodol, toriadau mewn systemau a rhwystredigaeth ym mhob rhan o'r Awdurdod.
2. Yn 2010, nododd Swyddfa Archwilio Cymru, drwy ei gwaith asesu gwelliant, fod llawer o awdurdodau yn ceisio sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i helpu i drawsnewid gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac o ganlyniad, cynhelir adolygiadau o dechnoleg ym mhob awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
3. Ceisiodd yr adolygiad hwn ateb y cwestiwn canlynol: 'A yw trefniadau'r Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus?' Daeth ein hadolygiad o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i'r casgliad canlynol:
    - Mae trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus. Mae'r Awdurdod yn deall sut y gall technoleg ei helpu i sicrhau y defnyddir technoleg mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol, cyflawni effeithlonrwydd a thrawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau ar ffurf sgiliau technegol i gyflawni ei gynlluniau heb effeithio ar ansawdd gwasanaethau.
4. Amlinellir ein canfyddiadau, casgliadau a chynigion ar gyfer gwella yn y tabl isod.

## Cwestiynau lefel uchel a chanfyddiadau

| **Cwestiwn Lefel Uchel** | **A yw trefniadau'r Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus?** |
|---|---|
| **Ateb Lefel Uchel:**<br>**Daethom i'r casgliad canlynol:** | Mae trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus. Mae'r Awdurdod yn deall sut y gall technoleg ei helpu i sicrhau y defnyddir technoleg mewn ffordd gynaliadwy ac effeithiol, cyflawni effeithlonrwydd a thrawsnewid y broses o ddarparu gwasanaethau ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau ar ffurf sgiliau technegol i gyflawni ei gynlluniau heb effeithio ar ansawdd gwasanaethau. |
| **Asesiad o'r Trefniadau Presennol** | Mae'r trefniadau yn gadarn ar y cyfan. Mae lle i wneud mân welliannau ond mae'r rhain naill ai eisoes ar waith neu nid ydynt yn ddigon pwysig i orfod gweithredu ar frys. |
| **Asesiad o Berfformiad** | Mae gwendidau yn perthyn i rai agweddau ar berfformiad, y mae angen ymdrin â hwy, ond mae agweddau eraill yn dderbyniol gydag arwyddion o welliant. |
| **Cynigion ar gyfer Gwella** | A1 Llunio strategaeth TGCh pum mlynedd newydd i ategu gofynion presennol yr Awdurdod a'i ofynion yn y dyfodol a nodwyd drwy ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid gwasanaethau allweddol.<br>A2 Dogfennu, cyhoeddi a hyrwyddo safonau a pholisïau technoleg.<br>A3 Sicrhau bod gan yr Awdurdod y sgiliau a'r adnoddau TGCh i gefnogi a datblygu technoleg heb gael effaith andwyol ar ansawdd gwasanaethau.<br>A4 Defnyddio technoleg i optimeiddio a safoni prosesau a gweithdrefnau busnes.<br>A5 Mae angen i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i fonitro a mesur effeithiolrwydd ac effaith technoleg a boddhad defnyddwyr gwasanaethau. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw cynlluniau technoleg yr Awdurdod yn debygol o gefnogi ei flaenoriaethau o ran gwella?** | Ydyn | • Mae trefniadau llywodraethu TGCh yr Awdurdod yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio technoleg ac yn sail i'w amcanion gwella.<br>• Mae'r Awdurdod yn adolygu ac yn datblygu ei Strategaeth TGCh ar gyfer y pum mlynedd nesaf fel ei bod yn cefnogi ei flaenoriaethau gwella ac yn sail iddynt ac fel ei bod yn gydnaws ag egwyddorion Strategaeth TGCh Cymru ac mae wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses.<br>• Mae'r Awdurdod yn llwyr dderbyn y gall buddsoddi mewn technoleg ei helpu i drawsnewid gwasanaethau.<br>• Mae gan yr Awdurdod sail gadarn i nodi ei flaenoriaethau technoleg a chytuno arnynt.<br>• Mae'r Adran TGCh wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol wrth gynllunio gwelliannau i dechnoleg.<br>• Wrth lunio cynlluniau i wella technoleg, mae'r Awdurdod yn gwerthuso ac yn ystyried trefniadau cydweithio a phartneriaeth yn ogystal â chyfrannu atynt.<br>• Mae mentrau a phrosiectau cenedlaethol wedi helpu i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau ond mae eu niferoedd a'u hamseriad wedi effeithio ar adnoddau TGCh, blaenoriaethau lleol a threfniadau cefnogi. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw trefniadau cyflenwi technoleg yr Awdurdod yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus?** | Ydyn | • Mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio technoleg yn well er mwyn ei helpu i gyflawni ei ganlyniadau strategol. Ers sawl blwyddyn canolbwyntiwyd ar ddefnyddio technoleg i gefnogi gweithrediadau rheng flaen ar draul datblygu trefniadau cefn swyddfa.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio technoleg yn llwyddiannus i alluogi pobl i ymgysylltu a rhyngweithio ag ef mewn ffyrdd gwahanol er mwyn codi ymwybyddiaeth o weithdrefnau atal tân a diogelwch tân.<br>• O ganlyniad i adnoddau cyfyngedig, mae safonau a pholisïau technoleg yn anffurfiol ac nis dogfennir yn ffurfiol.<br>• Mae cysylltiadau clir a chadarn rhwng cynlluniau technoleg a chynlluniau ariannol ond mae cynlluniau adnoddau yn llai cadarn.<br>• Nid yw'r Awdurdod yn rheoli'r twf yn y galw am dechnoleg mewn ffordd effeithiol. Mae problemau ym maes sgiliau TGCh sy'n effeithio ar ansawdd prosesau darparu gwasanaethau. Nid yw'r defnydd cynyddol o dechnoleg na'r ddibyniaeth gynyddol arni wedi'u paru â sgiliau ychwanegol er mwyn datblygu a chefnogi technoleg. Mae staff Cymorth Technegol hefyd yn gwneud gwaith datblygu, nad yw'n ddefnydd effeithiol o sgiliau i gyflawni prosiectau neu gynnal safonau cyflenwi gweithredol.<br>• Caiff technolegau seilwaith a thechnoleg bwrdd gwaith eu hariannu drwy brosiectau cyfalaf. Darperir yr arian dan sylw gan yr Awdurdod ei hun neu Lywodraeth Cymru. Cysylltir yr arian â chynlluniau mireinio technoleg a reolir gan y Pennaeth TGCh.<br>• Mae'r Gwasanaeth yn trin technoleg bwrdd gwaith fel un o nwyddau'r Awdurdod, sy'n enghraifft o arfer da.<br>• Mae'r Awdurdod yn rheoli'r rhan fwyaf o risgiau technoleg yn effeithiol ac eithrio sgiliau a gallu ac adnoddau.<br>• Mae gan y Gwasanaeth TGCh drefniadau rheoli prosiectau ar waith ac mae trefniadau rheoli rhaglenni yn datblygu ac yn aeddfedu.<br>• Mae'r Awdurdod yn rheoli ei asedau TGCh yn effeithiol. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw'r Awdurdod yn defnyddio technoleg at ddiben trawsnewid a chyflawni arbedion sylweddol o ran costau rhedeg?** | Yn Rhannol | • Mae'r Awdurdod yn defnyddio technoleg storio ganolog a rennir i storio ei ddata a'i wybodaeth gan ddarparu cyfleusterau gweithio symudol a gweithio o bell, gwydnwch ac osgoi dyblygu.<br>• Mae'r Awdurdod yn defnyddio technoleg mynediad symudol yn effeithiol o gerbydau tân i'w gwneud yn bosibl i'r wybodaeth ddiweddaraf am safle penodol fod ar gael i griwiau mewn digwyddiad, gan ddefnyddio model sy'n briodol i'w ranbarth daearyddol a'r cyfleusterau sydd ar gael.<br>• Defnyddir technoleg i olrhain cerbydau a chyfrifo amseroedd ymateb a gall gweithredwyr yr ystafell reoli fonitro cerbydau ar fapiau a ddangosir ar sgriniau mewn ystafelloedd rheoli.<br>• Mae wedi bod yn bosibl i rai uwch aelodau o staff weithio'n symudol ac o bell ond mae'r trefniadau hyn bellach yn cael eu hymestyn i fwy o staff fel bod modd iddynt symud desgiau, gweithio gartref, gweithio ar y safle, neu yng nghartrefi aelodau o'r cyhoedd er mwyn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd.<br>• Mae'r Awdurdod yn bwriadu cynyddu'r defnydd o argraffwyr aml-swyddogaeth er mwyn lleihau nifer yr argraffwyr, lleihau costau argraffu a hefyd wella ansawdd deunyddiau a argreffir.<br>• Mae rhesymoli rhaglenni Adnoddau Dynol a Hyfforddiant cefn swyddfa yn flaenoriaeth i'r Awdurdod. Mae problemau dyblygu o ran y swyddogaethau a data sy'n achosi aneffeithlonrwydd ac yn peryglu cywirdeb data.<br>• Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i gyflwyno'r System Rheoli Cofnodion Tân (RMS Tân) ar gyfer meysydd gwasanaeth Diogelwch Tân a Gweithredol. Mae'r system RMS graidd wedi cymryd lle llu o gronfeydd data. Mae'r RMS Tân wedi cael ei hintegreiddio â systemau eraill ac mae'n cynnwys rhyngwynebau â'r system Gorchymyn a Rheoli, y system data symudol, adnoddau dynol a systemau 'e-bost' cyfnewid.<br>• Ni chymerwyd camau corfforaethol i safoni ac optimeiddio prosesau busnes gan ddefnyddio technoleg ym meysydd Adnoddau Dynol a Hyfforddiant, gan gynnwys y system ar ddyletswydd yn ôl galw. Caiff prosiect yn seiliedig ar 'Feddylfryd Systemau Darbodus' ei gynnal ac mae'r Awdurdod yn ymchwilio i opsiynau i wella prosesau busnes.<br>• Caiff y rhestr ranbarthol ei defnyddio gan sawl system ee, Gorchymyn a Rheoli a'r RMS Tân ac mae wedi gwella cywirdeb ac ansawdd gwybodaeth. Mae hefyd yn ategu'r prosiect gwydnwch cenedlaethol ac yn cyfrannu at y gwaith o lunio rhestr genedlaethol: un rhestr genedlaethol o wybodaeth am eiddo. |

| Canfyddiadau | Ateb | Oherwydd: |
| --- | --- | --- |
| **A yw'r Awdurdod yn defnyddio technoleg at ddiben trawsnewid a chyflawni arbedion sylweddol o ran costau rhedeg?** | | • Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau corfforaethol i reoli cofnodion diogelwch tân a gweithredol drwy gyflwyno RMS Tân lle mae wedi safoni prosesau busnes ar gyfer staff sirol a staff gorsafoedd. Cyn hyn, ni chymerwyd unrhyw gamau corfforaethol oherwydd roedd siroedd a gorsafoedd yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, ac roedd y math o wybodaeth a gofnodwyd ynghyd â'i hansawdd yn anghyson.<br>• Mae'r Awdurdod wedi rhesymoli ei seilwaith ee, technoleg gweinydd rhithwir Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i leihau nifer y gweinyddwyr ffisegol a faint o ynni a ddefnyddir.<br>• Mae'r Awdurdod yn llwyr ymrwymedig i TG werdd ee, yn ogystal â rhesymoli technoleg a'i gwneud yn rhithwir mae ei dechnoleg symudol a'i drefniadau gweithio hyblyg hy, gweithio o gartref neu mewn gorsaf sy'n agos i gartref yn lleihau allyriadau carbon drwy leihau'r angen i deithio. |
| **A yw'r Awdurdod yn monitro ac yn gwerthuso gwelliant a pherfformiad technoleg yn effeithiol?** | Nac ydy | • Mae gan yr Awdurdod ddull ad hoc anffurfiol o fonitro a gwerthuso gwelliant a pherfformiad technoleg. Ni chaiff effaith technoleg ei gwerthuso na'i mesur fel mater o drefn fel rhan o adolygiadau prosiectau.<br>• Ni chynhelir arolygon mewnol o foddhad cwsmeriaid na gweithgareddau meincnodi.<br>• Ar wahân i alwadau brys, lefel isel o ryngwynebu sydd rhwng yr Awdurdod a'r cyhoedd ac ni fu'n flaenoriaeth ganddo fonitro a rheoli ei gyfryngau mynediad.<br>• Creffir ar dechnoleg yn effeithiol ac mae'r Adran TGCh wedi ymateb yn gadarnhaol i waith arolygu a chraffu allanol. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk